OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1831 (Cy. 267) (C. 115)

# TAI, CYMRU

# DIOGELU DEFNYDDWYR, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2015

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym, ar 21 Hydref 2015, Bennod 3 o Ran 3 o Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 ("y Ddeddf") at ddibenion sy'n weddill.

Mae Pennod 3 o Ran 3 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i asiantau gosod i roi cyhoeddusrwydd i ffioedd perthnasol yn eu mangreoedd ac ar eu gwefan (os oes ganddynt un). Mae Pennod 3 hefyd yn darparu ar gyfer gorfodi'r ddyletswydd gan bob awdurdod pwysau a mesurau lleol yng Nghymru.

Daeth Pennod 3 o Ran 3 i rym pan roddwyd y Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf ar 26 Mawrth 2015 at y dibenion o wneud rheoliadau.

Mae adran 87 (gorfodi dyletswydd asiantau gosod i roi cyhoeddusrwydd i ffioedd) ac Atodlen 9 (dyletswydd asiantau gosod i roi cyhoeddusrwydd i ffioedd: cosbau ariannol) o'r Ddeddf wedi eu cychwyn yn y Gorchymyn hwn. Mae Atodlen 9 yn darparu gweithdrefn ar gyfer cosbau ariannol a sut i apelio yn eu herbyn.

**NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym yn llawn (oni nodir fel arall) gan orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 89 | 1 Medi 2015 | 2015/1605 (Cy.203) |

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1831 (Cy. 267) (C. 115)

# TAI, CYMRU

# DIOGELU DEFNYDDWYR, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2015

*Gwnaed* *21 Hydref 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd gan adran 100(3)(b) o Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2015.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 21 Hydref 2015**

**2.** Mae Pennod 3 o Ran 3 o'r Ddeddf yn dod i rym ar 21 Hydref 2015 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

**3.** Mae Atodlen 9 i'r Ddeddf yn dod i rym ar 21 Hydref 2015 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru
21 Hydref 2015

(**1**) 2015 (p. 15).